Taith 2:

# Tywysogion Gwynedd yn Nyffryn Conwy

**Llandudno - Llanrwst - Betws y Coed** Cyfnod: UN DIWRNOD

Ewch i dref farchnad hanesyddol Llanrwst a mwynhewch gyfnod o fyfyrdod tawel yng Nghapel Gwydir, sydd ynghlwm wrth Eglwys Sant Grwst. Yma mae arch garreg Llywelyn Fawr (1173-1240), a lywodraethodd y rhan fwyaf o Gymru yn ystod dechrau'r 13eg ganrif. Cafodd arch Llywelyn ei gladdu'n wreiddiol yn Abaty Aberconwy yng Nghonwy ond cafodd ei symud yn ddiweddarach i Abaty Maenan, ger Llanrwst, ar ôl i Edward I orfodi'r mynachod Sistersaidd i symud yno o Gonwy ym 1283.


Ym Metws y Coed, stopiwch wrth Eglwys Sant Mihangel nesaf at yr amgueddfa rheilffyrdd i gyfarfod â disgynnydd y tywysogion. Y tu mewn i'r eglwys o'r 14eg ganrif mae cerfwaith calchfaen maint byw mewn arfwisg. Y gred yw mai Gruffydd ap Dafydd Goch yw'r ddelw. Brwydrodd Gruffydd ochr yn ochr â'r Tywysog Du ym Mrwydr Poitiers ym 1356. Gruffydd oedd ŵyr Dafydd ap Gruffydd, tywysog olaf Cymru annibynnol.

**TEITHIO:** Ewch ar y trên o Landudno, gan newid yng ngorsaf Cyffordd Llandudno i deithio i fyny i Ddyffryn Conwy i Lanrwst, neu cymerwch fws rhif 19 o orsaf drenau Cyffordd Llandudno. Neidiwch nôl ar y trên i Fetws y Coed i ymweld ag Eglwys Sant Mihangel. Gorffennwch eich taith yng Nghanolfan Groeso Betws y Coed, lle gallwch weld arddangosfa fach am oes y tywysogion.

hawdd




Arch garreg Llywelyn Fawr, Llanrwst







Yn cynnwys data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2013